# BWRDD UCHELGAIS ECONOMAIDD GOGLEDD CYMRU DYDD GWENER, 12 MEHEFIN 2020

Yn bresennol:

Aelodau â Phleidlais – Y Cynghorwyr:- Llinos Medi Huws (Cyngor Sir Ynys Môn), Ian Roberts (Cyngor Sir y Fflint), Sam Rowlands (Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy), Mark Pritchard (Cyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam) a Dyfrig L. Siencyn (Cyngor Gwynedd) (Cadeirydd).

Ymgynghorwyr – Dafydd Evans (Grŵp Llandrillo Menai), Maria Hinfelaar (Prifysgol Glyndŵr), Yr Athro David Thomas (Prifysgol Bangor), Steve Jackson (Coleg Cambria), Jim Jones (Cyngor Busnes Gogledd Cymru a Glannau Dyfrdwy) ac Askar Sheibani (Bwrdd Cyflawni Busnes).

Prif Swyddogion – Annwen Morgan (Cyngor Sir Ynys Môn), Iwan Davies (Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy), Judith Greenhalgh (Cyngor Sir Dinbych), Ian Bancroft (Cyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam),Dilwyn Williams (Cyngor Gwynedd),  Colin Everett (Cyngor Sir y Fflint).

Swyddogion yn bresennol – Alwen Williams (Cyfarwyddwr Rhaglen), Dafydd Edwards (Swyddog Cyllid Statudol), Iwan Evans (Swyddog Monitro), Jane Richardson (Cadeirydd Grŵp Swyddogion Gweithredol), Hedd Vaughan-Evans (Rheolwr Gweithrediadau) ac Annes Sion (Swyddog Gwasanaethau Democratiaeth).

## 1. YMDDIHEURIADAU

Ni dderbyniwyd unrhyw ymddiheuriadau

## 2. DATGAN BUDDIANT PERSONOL

Ni dderbyniwyd unrhyw ddatganiad o fuddiant personol.

## 3. MATERION BRYS

Dim i’w nodi.

## 4. COFNODION Y CYFARFOD BLAENOROL

Llofnododd y Cadeirydd gofnodion cyfarfod y Bwrdd Uchelgais a gynhaliwyd ar 24 Ionawr 2020 fel rhai cywir.

## 5. PENAWDAU'R TELERAU

Cyflwynwyd yr adroddiad gan Alwen Williams – Cyfarwyddwr Rhaglen.

**PENDERFYNWYD**

Nodi fod Penawdau’r Telerau wedi’u cwblhau.

**RHESYMAU DROS Y PENDERFYNIAD**

Drafftiwyd Cytundeb Penawdau'r Telerau gan y ddwy Lywodraeth yng nghyd-destun y Ddogfen Gynnig ac yn unol â'r cynnig gan y Bwrdd Uchelgais o fewn y Cynllun Gweithredu. Bu i'r Bwrdd Uchelgais drafod a chymeradwyo'r ddogfen drafft yn ystod cyfarfod y Bwrdd ar 26 Gorffennaf a 6 Medi 2019. Ar gyhoeddiad y ddogfen derfynol cyflwynwyd y ddogfen yn ffurfiol i'r Bwrdd i'w nodi yn gyhoeddus.

**TRAFODAETH**

Cyflwynwyd yr adroddiad gan nodi fod yr adroddiad yn cyflwyno fersiwn wedi'i lofnodi o'r cytundeb Penawdau'r Telerau a baratowyd yng nghyd-destun y Ddogfen Gynnig a'r Cynllun Gweithredu. Nodwyd fod angen penderfyniad i nodi fod y Penawdau'r Telerau wedi'i chwblhau.

Yn ystod y drafodaeth, codwyd y materion a ganlyn:-

- Pwysleisiwyd fod llofnodi'r Penawdau'r Telerau yn arwyddocaol gan ei fod yn dangos ymrwymiad y ddwy Lywodraeth yn glir i waith y Bwrdd Uchelgais. Ategwyd fod y penawdau yn ogystal yn dangos partneriaeth dda gyda'r ddwy Lywodraeth a mynegwyd fod y Bwrdd yn edrych ymlaen at lofnodi'r ddogfen derfynol cyn diwedd y flwyddyn.

**6. LLYWODRAETHU RHAGLENNI**

Cyflwynwyd yr adroddiad gan Hedd Vaughan-Evans – Rheolwr Gweithrediadau.

**PENDERFYNWYD**

Penderfynwyd i:

- Gadarnhau'r egwyddor o fabwysiadu dull rheoli rhaglenni a phrosiectau i gyflawni Cynllun Twf Gogledd Cymru yn cynnwys sefydlu Byrddau Rhaglen i oruchwylio'r cyflawni gweithredol.
- Cymeradwyo strwythur cyflawni arfaethedig fel sydd wedi'i amlinellu yn Atodiad 1 a Chylch Gorchwyl arfaethedig y Bwrdd Rhaglen fel sydd wedi'i amlinellu yn Atodiad 2.
- Cymeradwyo penodi Uwch Swyddogion Cyfrifol a Dirprwy Uwch Swyddogion Cyfrifol fel sydd wedi'i amlinellu yn Atodiad 3 a phenodi Aelod Arweiniol o Fwrdd Uchelgais Economaidd Gogledd Cymru i eistedd ar bob Bwrdd Rhaglen.
- Nodi y bydd yr is-grwpiau presennol ar gyfer Ynni a Digidol yn cael eu disodli gan y Byrddau Rhaglen unwaith y byddent wedi'u sefydlu.
- Dirprwyo'r hawl i'r Cyfarwyddwr Rhaglen, mewn ymgynghoriad â'r Swyddog Monitro a'r Grŵp Cefnogaeth Weithredol i weithredu trefniadau llywodraethu'r rhaglen a gwneud yr holl benodiadau eraill i'r Byrddau Rhaglen.

**RHESYMAU DROS Y PENDERFYNIAD**

Roedd angen i'r Bwrdd Uchelgais fabwysiadu model llywodraethu'r rhaglen yn seiliedig ar arfer gorau i sicrhau fod Cynllun Twf Gogledd Cymru yn cael ei gyflawni'r llwyddiannus.

O ystyried graddfa a chymhlethdod y bartneriaeth a phortffolio'r gwaith sydd i'w gyflawni, mynegwyd angen i sefydlu model clir ar gyfer llywodraethu'r portffolio, y rhaglenni a'r

prosiectau.

**TRAFODAETH**

Cyflwynwyd yr adroddiad gan nodi'r penderfyniad. Pwysleisiwyd pwysigrwydd llywodraethu ar gyfer prosiectau nid ar gyfer trefniadau ond ar gyfer y weledigaeth. Mynegwyd fod y model yn seiliedig ar ddull arfer gorau ar gyfer rheoli prosiectau ac yn adeiladau ar y strwythur sydd i'w gweld yn barod.

Amlygwyd mai'r prif newid oedd bod byrddau rhaglen yn cael ei sefydlu a fydd yn cael gwared â'r is-grwpiau. Ni fydd y rhain yn is-fyrddau ffurfiol o'r Bwrdd Uchelgais ond yn fyrddau rhaglen fydd yn goruchwylio gwaith ac yn gynnig argymhellion nid gwneud penderfyniadau. Tynnwyd sylw at y strwythur gan amlygu pa Aelodau a fydd yn Aelod Arweiniol ar gyfer bob rhaglen, a fydd yn linc rhwng y byrddau a'r Bwrdd Uchelgais.

Mynegwyd fod y Bwrdd Uchelgais wedi ei amlygu fel Grŵp i gydlynu Adfer Economi yn dilyn Covid-19. Nodwyd mai nod ac amcan y grŵp cydlynu adfer Economi fydd i hwyluso'r cyfnod yn dilyn Covid.

Yn ystod y drafodaeth, codwyd y materion a ganlyn:-

- Holwyd y sut mae'r strwythur Grŵp Adfer a'r Bwrdd Uchelgais yn gweithio gyda'i gilydd ac os bydd effaith ar brosiectau. Mynegwyd fod 4 thema wedi ei amlygu ar gyfer y grwpiau adfer ar draws y rhanbarth ac un o'r rhain yw'r economi ac y bydd mwy o wybodaeth yn cael ei hanfon at yr aelodau.
- Ychwanegwyd y bydd y Bwrdd drwy'r Grŵp Adfer yn gosod amcanion ac arwain ar y gwaith ond ddim yn ymateb yn uniongyrchol. Pwysleisiwyd y bydd angen gweithio mewn partneriaeth gyfer Llywodraeth.

**7. CYTUNDEB LLYWODRAETHU 2**

Cyflwynwyd yr adroddiad gan Iwan Evans - Swyddog Monitro y Awdudrdod Lletyol.

**PENDERFYNIAD**

Cymeradwywyd yr adroddiad ynghyd a'r Cynllun Prosiect Cytundeb Llywodraeth 2 diwygiedig yn ddarostyngedig i dderbyn diweddariad yng nghyfarfod nesaf y Bwrdd.

**RHESYMAU DROS Y PENDERFYNIAD**

Mae cytundeb y bartneriaeth danategol a'r fframwaith llywodraeth yn allweddol i gytuno ar Gytundeb Llywodraeth 2 (GA2) cynhwysfawr. Mae'r GA2 yn ddogfen sy'n cyfundrefnu perthynas ac ymrwymiad y partïon yn bennaf, ynghyd â'u cyfrifoldebau a'u hatebolrwydd ynghyd â sefydlu'r fframwaith llywodraethu cefnogol. Roedd angen i'r Bwrdd graffu a chytuno rhaglen ar gyfer cwblhau y gwaith yma i gyd fynd a'r amcan o gwblhau y Cytundeb Terfynol yn ystod Rhagfyr 2020..

**TRAFODAETH**

Cyflwynwyd yr adroddiad gan nodi fod yr adroddioad hwn wedi ei raglennu ar gyfer mis Mawrth er mwyn dilyn amserlen y cynllun gwaith er mwyn arwyddo'r cytundeb terfynol ym mis Rhagfyr ond fod Covid wedi ei gadw yn ôl hyn y cyfarfod hwn. Pwysleiswyd fod cytundeb Llyowdraethu 2 yn allweddol ar gyfer Cytundeb Terfynol.

Nodwyd fod gweithdy Llywodraethu wedi ei gynnal i adnabod a deall y materion sydd angen cytuno arnynt neu eu datrys rhwng y partneriaid. Amlygwyd y materion allweddol. Amlygwyd fod llithriad yn yr amserlen sydd yn heriol ac y bydd angen adroddiad pellach yn y cyfarfod nesaf.

Yn ystod y drafodaeth, codwyd y materion a ganlyn:-

- Nodwyd yr angen i sicrhau fod y drefn craffu mor syml â phosib ac yn disgyn i mewn i drefniadau sydd i'w gweld yn yr awdurdodau yn barod. Ychwanegwyd fod amserlen craffu mynd i'w gwneud yn anodd cyrraedd y targed o gwblhau'r cytundeb Twf Terfynol erbyn Rhagfyr 2020.
- Nodwyd y bydd adroddiad pellach cynhwysfawr yn cael ei gyflwyno i'r aelodau yn cyfarfod nesaf.

## 8. MODELAU MASNACHOL

Cyflwynwyd yr adroddiad gan Hedd Vaughan-Evans – Rheolwr Gweithrediadau.

**PENDEFYNIAD**

Rhoddwyd sylwadau ar y papur gan nodi y bydd gwaith pellach yn cael ei wneud gan y Swyddfa Raglen, y Grŵp Cefnogaeth Weithredol a Swyddogion Cyllid ar sut gellir defnyddio modelau masnachol i ddyrannu arian ar gyfer rhaglenni a phrosiectau, gan nodi y bydd adroddiad pellach ar y mater yn cael ei gyflwyno i'r Bwrdd Uchelgais.

**RHESYMAU DROS Y PENDERFYNIAD**

Fel rhan o'r gwaith datblygu achosion busnes y rhaglen, mae angen i'r Bwrdd Uchelgais ddatblygu y modelau ariannu ar gyfer y Rhaglenni a Phrosiectau. Roedd angen tynnu sylw at y math o fodelau masnachol ac ariannu posib a'r ystyriaethau fydd yn berthnasol all hefyd gyflwyno cyfle ailgylchu arian yn ôl i'r Cynllun Twf ar gyfer buddsoddiad pellach yn y dyfodol.

**TRAFODAETH**

Cyflwynwyd yr adroddiad gan nodi'r angen i fwrw ymlaen a'r gwaith ar fodelau masnachol ac ariannu fel rhan o'r pecyn o waith sydd ei angen ar gyfer sicrhau'r Cynllun Terfynol gyda'r Llywodraethau. Amlygwyd tri model posib a oedd yn grant, benthyciad neu fuddsoddiad neu gyfuniad o'r tri.

Yn ystod y drafodaeth, codwyd y materion a ganlyn:-

- Mynegwyd fod y syniadau am fodelau yn agored i hyblygrwydd ac na fydd angen i bob prosiect i weithio'r un ffordd.
- Nodwyd fod angen edrych ar hyn i sicrhau arian ar gyfer buddsoddi mewn prosiectau, ac y bydd adroddiad pellach i ddilyn.
- Pwysleisiwyd mai edrych ar ffordd o ddefnyddio'r arian sydd gan y Bwrdd yw'r modelau rhain ac nid chwilio am fwy o fuddsoddiad.

## 9. ADRODDIAD ALLDRO 2019/20

Cyflwynwyd yr adroddiad gan Dafydd Edwards – Pennaeth Cyllid yr Awdurdod Lletyol.

**PENDERFYNIAD**

Nodwyd a derbyniwyd Cyfrif Incwm a Gwariant Refeniw y Cyd-bwyllgor ar gyfer 2019/20.

Cymeradwywyd ffurflen flynyddol swyddogol y Cyd-bwyllgor ar gyfer 2019/20 (amodol ar Archwiliad Allanol), oedd wedi'i gwblhau a'i ardystio'n briodol gan Swyddog Cyllid Statudol y Cyd-bwyllgor yn unol â'r amserlen statudol, sef 15 Mehefin 2020.

**RHESYMAU DROS Y PENDERFYNIAD**

Mae angen i'r Cyd-bwyllgor fod yn ymwybodol o'i sefyllfa ariannol ar gyfer 2019/20 a chydymffurfio a'r gofynion statudol yn nhermau cwblhau'r adroddiad blynyddol.

**TRAFODAETH**

Cyflwynwyd yr adroddiad gan nodi fod yr adroddiad yn nodi'r cyfrifon terfynol ac y bydd angen cymeradwyaeth i'r ffurflen flynyddol swyddogol y Cyd bwyllgor. Ychwanegwyd y bydd y cyfrifon a'r adroddiad yn destun archwiliad gan Deloitte a pe byddai angen unrhyw newidiadau, caiff fersiwn diwygiedig ei gyflwyno yn y cydbwyllgor nesaf.

Tynnwyd sylw at y tanwariant gan nodi'r rhesymau dros y tanwariant a oedd yn cynnwys gostyngiad i wasanaethau cefnogol y Corff Atebol. Ychwanegwyd nad oedd arian Cronfa Gymdeithasol Ewropeaidd wedi ei dderbyn tan fis Mai 2020 ac felly nid yw'n ymddangos yn y cyfrifon 2019/20. Felly, ychwanegwyd caiff ei ail hawlio'n ôl-weithredol yn ystod 2020/21 a'i ôl-ddyddio i 1 Gorffennaf 2018. Amlygwyd fod tanwariant o £161,316 a'i fod wedi ei drosglwyddo i gronfa wrth gefn a'i glustnodi i roi gweddill o £497,529 a fydd ar gael i ariannu costau unwaith ac am byth yn y dyfodol.

Yn ystod y drafodaeth codwyd y materion a ganlyn:-

- Diolchwyd i'r swyddogion am eu gwaith.
- Mynegwyd fod llythyr cadarnhad am arian Cronfa Gymdeithasol Ewropeaidd wedi ei dderbyn a bydd hyn yn galluogi'r Tîm Swyddfa Rhaglen i ddechau paratoi ar gyfer y cyfnod nesaf i ddod.

**10. CYLLIDEB 2020/21**

Cyflwynwyd yr adroddiad gan Dafydd Edwards – Pennaeth Cyllid yr Awdudod Lletyol.

**PENDERFYIAD**

Cymeradwywyd Cyllideb 2020/21 gydag Arian Grant ESF (Atodiad 1b) a rhoddwyd yr hawl i'r Cyfarwyddwr Rhaglen mewn ymgynghoriad â Swyddog Adran 151 a Swyddog Monitro Cyngor Gwynedd a'r Cadeirydd, i ymrwymo hyd at £100,000 ychwanegol o'r gronfa wrth gefn yn ystod y flwyddyn, ar y pennawd Cynllunio, Datblygu a Chefnogi Prosiectau pe bai angen hynny, er mwyn cynnal a gwireddu amserlen y rhaglen waith ar gyfer y Cytundeb terfynol.

**RHESYMAU DROS Y PENDERFYNIAD**

Mae angen i'r Bwrdd Uchelgais osod y gyllideb arfaethedig fesul pennawd gwariant a'r ffrydiau ariannu cyfatebol ar gyfer y flwyddyn. Drwy dderbyn cymeradwyaeth y Bwrdd, mae modd gweithredu'n effeithiol o fewn y gyllideb sydd ar gael

**TRAFODAETH**

Cyflwynwyd yr adroddiad gan nod fod yr eitem hon wedi cael ei gytuno dros e-bost yn dilyn gohirio'r cyfarfod blaenorol o ganlyniad i argyfwng yr haint Covid-19 er mwyn i'r

Bwrdd Uchelgais gael gweithredu dros y ddau fis diwethaf. Ychwanegwyd pan ysgrifennwyd yr adroddiad nad oedd cadarnhad ffurfiol wedi ei dderbyn ar gyfer y grant ESF ac felly fod angen i'r aelodau ganolbwyntio ar senario 2 yn y gyllideb.

Amlygwyd y prif newidiadau a fydd rhwng cyllideb 2019/20 a 2020/21 gan y bydd cynnydd yn y costau staffio a gostyngiad yn y gyllideb ar gyfer cynllunio, datblygu a chefnogi prosiectau. Ychwanegwyd y bydd Incwm Grant y Cais Twf yn cael ei dderbyn yn ystod y flwyddyn ond os bydd yn cael ei dderbyn yn ystod y chwarter olaf, ategwyd y byddant yn ymdrin â hynny'r bryd hynny.

Tynnwyd sylw ar yr angen i wneud trosglwyddiadau unwaith ac am byth i'w hariannu o'r gronfa wrth gefn i ariannu gwawriant dan y penawdau canlynol "Cyfathrebu a Chysylltiadau Cyhoeddus" a "Cynllunio, Datblygu a Chefnogi Prosiectau". Trafodwyd y Gyllideb gan nodi fod y gyllideb yn defnyddio £272,470 i ariannu gwariant unwaith ac am byth a fydd yn gadael gweddill o £358,000 yn y gronfa wrth gefn wedi'i chlustnodi i ariannu costau unwaith ac am byth yn y dyfodol.

Yn ystod y drafodaeth codwyd y materion a ganlyn:-

- Diolchwyd i'r tîm cyllid am eu gwaith a nodwyd fod angen ymrwymo £100,000 ychwanegol i'r pennawd Cynllunio, Datblygu a Chefnogi Prosiectau i sicrhau fod cynlluniau yn cael eu cwblhau.

## 11. CAU ALLAN Y WASG A'R CYHOEDD

**PENDERFYNIAD**

Penderfynwyd i gau allan y wasg a'r cyhoedd ar gyfer y ddwy eitem ganlynol.

## 12. ADOLYGIAD GWAELODLIN PROSIECTAU

**PENDERFYNIAD**

1. Nodi cynnwys yr adroddiad adolygiad gwaelodlin a'r cyflwyniad a wnaed yn y cyfarfod.

2. Nodi y bydd y Cynllun Terfynol gyda Llywodraeth y DU a Llywodraeth Cymru ar gyfer Cynllun Twf Gogledd Cymru yn seiliedig ar Achosion Busnes y Rhaglen.

3. Cytuno i brosiect Datgarboneiddio Trafnidiaeth Rhanbarthol gael ei gyflawni fel rhan o'r Rhaglen Ynni Carbon Isel ac na fydd achos busnes Rhaglen Trafnidiaeth penodol yn cael ei ddatblygu fel rhan o gytundeb y Cynllun Terfynol.

**RHESYMAU DROS Y PENDERFYNIAD**

Roedd y Swyddfa Rhaglen wedi cynnal adolygiad gwaelodlin o'r 14 prosiect a chwe rhaglen sy'n ffurfio rhan o Gynllun Twf Gogledd Cymru. Yn dilyn yr adolygiad roedd angen diweddaru'r Bwrdd Uchelgais ar sefyllfa pob rhaglen a'r broses i gyflawni'r cynllun terfynol.

**TRAFODAETH**

Trafodwyd yr adoddiad.

## 13. BWRDD CYFLAWNI BUSNES

### PENDERFYNIAD

Oherwydd y newid mewn cyd-destyn gohirio symud ymlaen a'r broses penodi Cadeirydd i'r Bwrdd Cyflawni Busnes er mwyn rhoi cyfle i'r Bwrdd Uchelgais ystyried oedd angen adolygu rôl y Bwrdd Cyflawni Busnes.

Fod adroddiad pellach i'w gyflwyno yn dilyn ymgynhoriad a'r sector breifat a'r Bwrdd Cyflawni Busnes.

### RHESYMAU DROS Y PENDERFYNIAD

O ystyried bod chwe mis wedi mynd heibio ers i'r rhestr fer o ymgeiswyr gael ei chreu, Covid-19 wedi newid y cyd-destun economaidd rhanbarthol yn sylweddol ynghyd a newidiadau safbwynt o ran mewnbwn y 2 Lywodraeth i'r penodiad, roedd angen i'r Bwrdd Uchelgais adlewyrchu ar y sefyllfa ac ystyried sut i symud ymlaen.

**TRAFODAETH**

Trafodwyd yr adorddiad.

Dechreuodd y cyfarfod am 1.00 y.h. a daeth i ben am 3.50 y.h.

**CADEIRYDD**